

**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangoed a Phenmon
A gynhaliwyd ar Nos Fercher Rhagfyr 10fed 2014
am 7 - 0 o'r gloch.**

1. **Croeso** - Agorwyd y Cyfarfod gan y Gadeirydd Cyng. G Moore, gan estyn croeso cynnes i bawb oedd yn bresennol.
Presennol - Cynghorwyr G Moore (Cadeirydd), Emllyn Jones (Is-Gadeirydd), Ruth Roberts, Mary Ellis, Lewis Davies, Dafydd Roberts, Alan Owen, Alwyn Rowlands, Ann Roberts, Keith Williams a Geraint Parry (Clerc).
2. **Ymddiheuriadau:-**
Cyng. Wyn Hughes, Carwyn Jones, Delyth Jones
3. **Cofnodion**
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 12fed o Dachwedd fel rhai cywir gan Cyng. K Williams ac eiliwyd gan Cyng. R Roberts.
4. **Materion yn Codi o'r Cofnodion**
 - 4.10 **Infois OGS** - Clerc dim wedi derbyn unrhyw newyddion pellach ynghlyn a anfoneb OGS am waith torri canghennau ar ffyrdd lleol.
 - 4.11 **Warchodfa Bws ger y Hen Ysgol** - Cyng. A Owen wedi bod yn edrych ar y craciau, ac mae wedi cytuno i'w llenwi mewn.
 - 4.12 **Carthion** - wedi derbyn dau lythyr gan drigolion lleol, lle maent yn datgan bod nhw wedi cysylltu ar Bwrdd Dŵr, ac yn gwneud yn glir fod y mater hwn wedi bod yn fater hirdymor. Mwy o alwadau a dderbyniwyd yn rhoi mwy o bwysau ar y Bwr Dŵr a Cyfoeth Naturiol Cymru i wneud rhywbeth o gylch y mater.
Gofynnwyd i drigolion i gysylltu â Cyng L Davies ar y mater yma.
5. **Datgan Diddordeb**
 - Cyng. A Owen ac G Moore ar drafodaeth Neuadd y Pentre'
 - Cyng. L Davies ar geisiadau 35C100E.
 - Cyng. M Ellis ar drafodaeth Grŵp Cymunedol Llangoed
6. **Sylwadau Ceisiadau Cynllunio**
 - 35C100E - Cais llawn ar gyfer codi annedd ynghyd a chreu mynedfa i gerbydau ar dir ger Bwthyn Glandwr, Glanrafon - yn amodol ar fynd ar afael a'r broblem garthffosiaeth leol. (Cais hwn yn cynnwys argymhellion sydd i ymwneud ag amddiffyn y coed)
- Er Gwybodaeth:-**
 - 35C318 - Cais amlinellol ar gyfer codi annedd fforddiadwy gyda holl faterion wedi ei gadw'n ol ar dir ger Coedfryn, Llangoed - wedi ei wrthod. Safle yn y cefn gwlad agored a thu allan i'r anheddiad cyfredol.
 - 35C175B - Cais llawn i ddymchwel ystafell haul presennol, addasu ag ehangu ynghyd ac ymestyn y cwrtill yn Tan y Fron, Penmon - wedi ei caniatáu.
7. **Adroddiad gan y Cynghorwyr Lleol**
 - 7.10 Lon ger Tros yr Afon a wrth Teras Ysgol wedi ei ail wynebu. Cytunwyd i anfon llythyr o ddiolch i Dewi Williams Cyngor Sir. Nifer o dyllau eraill ar y ffyrdd wedi cael llenwi fewn.
 - 7.11 Wedi derbyn cwyn bod carreg fawr wedi disgyn at y ffordd ger Cornelyn. Dilyn cysylltiad ar Cyngor Sir, mae'r garreg wedi cael ei gosod a gwneud yn ddiogel.
 - 7.12 Wedi ymweld ar safle Lôn Wern, peipen dwr sydd yn gollwn ac yn golchi gwyneb y ffordd. Tebyg bod y beipen wedi disgyn. Wedi cysylltu ar Cyngor Sir ar y mater.
 - 7.13 Mae gan Ysgol Langoed arolwg ar 12/01/15 gan Estyn, sydd yn golygu bod yr athrawon yn gorfod mynd i mewn dros y gwyliau Nadolig i baratoi. Maent hefyd wedi derbyn asesiad ar Perfformiad ac arolwg blynyddol. Grŵp o Ysgol Langoed wedi bod yn canu yn gyngerdd yr NSPCC ar 8/12/14. Clerc i anfon llythyr.
 - 7.14 Llwybr y Parc - wedi derbyn cwynion bod nifer o offerion wedi cael ei gosod ger y llwybr, gwneud yn anodd ymdopi. Angen sicrhau bod y llwybr troed yn cael ei gadw'n glir.
 - 7.15 Llwybr Capel Tŷ Rhys - wedi derbyn cwyn bod camera a golau wedi ei osod ar Bwthyn Llyswyn sydd yn gwnebu y llwybr cyhoeddus gerllaw. I drafod y mater gyda'r Cyngor Sir.

7.16 Tai Fforddiadwy - Wedi cyfarfod a Mary Sillitoe (Swyddog CSYM) a swyddogion Cymdeithas Tai Gogledd Cymru, cost nodweddiadol i bwrcasu tŷ 3 ystafell wely tua £142k, tŷ 2 ystafell wely tua £126k. Bydd y cynllun yn symud ymlaen os bydd y Cyngor Sir yn pwrcasu 4 tŷ ar gyfer rhentu allan, gyda rhent nodweddiadol o tua £106 yr wythnos. Cyfarfod cyhoeddus i gael ei drefnu.

7.17 Ffordd gyferbyn a chloc Haulfre wedi suddo, ar mae'r draen ger yr ochr yn beryglus i gerddwyr.

8. Neuadd y Pentre'

Nid oedd unrhyw wybodaeth i drafod.

Cyfarfod nesaf 16/12/14

9. Prosiect Afon Lleiniog

Cyfarfod 9/12/14 – Simon, Ruth, Emlyn ar Clerc.

- Angen arwydd newydd ger y Castell
- Trafodaeth i gymryd lle gyda gwaith cynnal a chadw ar gyfer 2015
- Sbwriel wedi ei gasglu ger y Castell, ond angen ei symud.
- Llawer o fwd ar y llwybrau troed oherwydd y tywydd gwlyb

10. Grŵp Cymunedol - Ffrindiau Llangoed

Cyng. M Ellis yn rhannu gwybodaeth:-

- Fair Nadolig y Plant yn yr Ysgol Gynradd – 13/12/14
- Grŵp wedi codi digon o arian i bwrcasu Castell pren i'r maes chwarae.

11. Hwb Cymunedol

AR yn adrodd bod y cynllun yn cymryd siâp, edrych ar fenter newydd - "bancio amser". Mae'n edrych fel bydd yr hwb cymunedol yn cael ei lleoli ym Miwmares.

12. Gerddi Haulfre

Cawsom eglurhad ar gynllun menter gymdeithasol sydd yn edrych i mewn i ddyfodol tymor hir a potential y Gerddi gan Huw Griffiths (CSYM), Alwyn Jones (CSYM) ac Andrew Jones (Canolfan Cydweithredol Cymru).

Wedi cael arian trwy brosiect Cyfenter (sydd yn cael ei rhedeg gan Menter Môn) i bwrcasu arbenigaeth i symud y trafodaethau i elwa cynlluniau fel hyn ymlaen.

Maent yn edrych ar sut mae yn cael ei ariannu, opsiynau amgen ar gyfer ddatblygiad pellach a chynaliadwyedd, sicrhau cyfleuster a'r gwasanaethau ar gyfer y defnyddwyr, hefyd y potensial i ailddatblygu'r safle ar godi incwm. Hefyd edrych i mewn i faint o reolaeth sydd gan y Cyngor Sir nawr a faint fyddant angen yn y dyfodol. Edrych ar wahanol opsiynau, fel rheolaeth sector preifat, rheolaeth trydydd sector, perchenogaeth gymunedol a model hybrid sy'n gymysgedd o awdurdod lleol, sector preifat ar drydydd sector.

Ymgynghori a staff a defnyddwyr gwasanaeth wedi digwydd, ac wedi cael 36 o sylwadau oddiwrth arolwg ar-lein. Cyfarfod lleol wedi ei gynnal ar 8/12/14, lle oedd tua 46 o bobl leol yn bresennol, gyda thrafodaeth fywiog.

Ystyrir nad yw'r cyfleoedd presennol yn cael ei defnyddio'n llawn, lle fydd cyfle i newid hyn.

Mynegwyd pryder am raddfa amser byr y prosiect hwn a diffyg gwybodaeth, gan fod ond nifer fach o bobl oedd yn ymwybodol. Eglurwyd bod rhaid gwario'r cyllid erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Fel rhan o'r cynllun, bydd adroddiad o'r opsiynau a'r argymhellion yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir ar 19/12/14, yna bydd adolygiad o'r opsiynau a ddewiswyd yn cael ei wneud yn y flwyddyn newydd. Disgwylir gweld y wybodaeth yn cael ei rhoi ar wefan y Cyngor Sir.

AJ (CCC) i anfon enghreifftiau o fentrau cymdeithasol eraill maent yn gweithio ar.

AJ (CSYM) yn cadarnhau bod y Cyngor Sir yn ystyried datblygu cyfleuster gofal ychwanegol i'r de o'r Ynys.

13. Cyfrifon

Clerc i drafod taliad ar gyfer cynnal a chadw gwarchodfa bysus lleol.

14. Gohebiaeth

Llythyr - T Waite, carthffosydd hyd ffordd Glanrafon

Llythyr - D Honor, carthffosydd, berygl i iechyd

E-bost – Huw Griffiths Gerddi Haulfre

Llythyr - Cyngor Sir, gwahoddiad i gyfarfod Bwyllgor Sgrwtini, 18/12/14

Apêl - Eisteddfod genedlaethol Urdd Gobaith Cymru 2015
 Apêl - Boparth
 Apêl - Strôc
 Apêl - Undeb Amaethwyr Cymru, ferched Byddin
 Llythyr - Cyngor Sir, Archebion Cynghorau Cymuned a Thref 2015/16
 Llythyr - Capel Tŷ Rhys, diolch am y rhodd
 Llythyr - Eglwys Penmon, diolch am y rhodd
 Llythyr - Cyngor Sir, cofnodion Fforwm Cynllunio
 Llythyr - Canolfan Biwmares, diolch am y rhodd
 Llythyr - Un Llais, cyfarfod 11/12/14

15. **UFA:**

- 15.10 Cyngerdd Nadolig Haulfre 13/12/14
- 15.11 Cyng. M Ellis yn adrodd bod tenantiaid Tai Cyngor wedi derbyn llythyr (ymgyngori rhent) gan yr adran Tai or Cyngor Sir, a bod dyddiad y cyfarfod wedi mynd heibio. Clerc yn adrodd fod y llythyrau yn hwyr yn cael ei anfon allan gan yr Adran.
- 15.12 Goryrru trwy'r pentre' - Heddlu wedi bod yn mesur cyflymder trafic. Cyng. G Moore yn awgrymu bod ni yn gwneud cais i derfyn cyflymder o 20 milltir yr awr rhwng Bont y Rhyd a Bont y Brenin, a gosod arwyddion fflachio. Cyng L Davies i drafod y mater gyda'r Cyngor Sir. Cyng K Williams - o brofiad, mae ceir yn cyflymu i fyny'r allt Mona Teras i gael mynd heibio'r rhes hir o gerbydau, a hefyd yn gyrru ger yr Ysgol. Mae rhaid i'r cyfyngiad gael i ategu hyn gyda thwmpathau neu gosod rhwystrau.
- 15.13 Nifer o gwynion ynghlyn a goryrru ar stad Tros yr Afon.
- 15.14 Cyng. R Roberts - nid ydi Cymuned Llanfaes yn cael rhodd at gynnal a chadw'r fynwent yr Eglwys.
- 15.15 Cyng E Jones - penderfynwyd trafod rhodd i'r "Puffin" erbyn diwedd y flwyddyn gyllidol.
- 15.16 Angen trafod Archebion 2015/16 yn y cyfarfod nesaf.
- 15.17 Clerc wedi gwneud cais ar gyfer grant cynnal a chadw llwybrau ar gyfer 2013/14.
- 15.18 Cyng. A Owen - cyflwr gwael ar ffordd ger Tan Ffordd Bach i'r Gatehouse
- 15.19 Cyng. K Williams - dilyn glaw trwm, oedd ffordd Bont y Brenin wedi gorlifo. Hefyd, yn pryderu fod marciau ffordd yn gwisgo i ffwrdd ac yn beryglus i feicwyr a beic modur.
- 15.20 Cyng. K Williams - bod gwybodaeth cynllunio ar wefan y Cyngor Sir dim yn gyfredol.

16. **Dyddiad cyfarfod nesaf:**

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Diolchodd y Gadeirydd i bawb am eu cyfraniad, a chynnig Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Da.
 Daeth y cyfarfod i derfyn am 9.40 o'r gloch.
 Cyfarfod nesaf 14/01/2015

Llofnod y Cadeirydd

Dyddiad